



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llys Elian**

**Llys Elian  
Groes Road  
Bae Colwyn  
LL29 8RA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad**

19 Awst 2022

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.**

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, the Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

## Ynglŷn â Llys Elian

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Lleuedd cofrestredig	27
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Hwn yw'r arolygiad cyntaf o'r gwasanaeth ers iddo gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Ydy. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl sy'n defnyddio, neu'n bwriadu defnyddio eu gwasanaeth.

### Crynodeb

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff gofal hyfforddedig a phrofiadol. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal dementia o ansawdd da mewn amgylchedd sy'n hybu llesiant y bobl ac yn gwella ansawdd eu bywyd. Mae'r bobl yn cael eu hysgogi gan amrywiaeth o weithgareddau ac adloniant sy'n ystyriol o ddementia naill ai trwy gymryd rhan yn y gweithgareddau neu wyllo eraill yn gwneud hynny. Mae gan y bobl ddewis ym mhob agwedd o'u diwrnod, a chânt eu cefnogi i ddefnyddio eu sgiliau mewn amgylchedd diogel.

Mae'r staff yn hapus yn eu gwaith; maent yn mwynhau eu swydd ac yn falch o weithio yn y cartref. Mae'r gofal yn ddigyffro, yn dawel, ac yn barchus. Mae'r staff gofal wedi'u hyfforddi'n dda ym maes gofal dementia ac yn cael eu cefnogi gan dîm rheoli sy'n rhagweithiol wrth chwilio am ffyrdd o wella'r gwasanaeth. Er y bu rhai problemau staffio o ganlyniad i salwch ac absenoldeb arall, mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod ganddo ddigon o staff asiantaeth; cymerir gofal i sicrhau bod sgiliau'r staff hyn yn cyfateb i'r hyn sy'n ofynnol, ac mae defnyddio'r un staff asiantaeth pan fo angen yn helpu i sicrhau parhad. Mae recriwtio yn barhaus ac mae cynnydd da yn cael ei wneud.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth fewnwelediad da o sut mae'n gweithredu, gydag archwiliadau rheolaidd o wahanol elfennau o ofal ac adolygiad o ansawdd gofal bob chwe mis. Dosberthir arolygon i berthnasau, rhanddeiliaid, a'r staff i ganfod eu barn a nodi unrhyw newidiadau neu welliannau sydd eu hangen.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth ynghylch y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn y cartref. Maent yn dewis sut i dreulio eu diwrnod a chyflawni eu harferion dyddiol. Mae cynlluniau personol yn canolbwyntio ar y person ac yn cynnwys adroddiadau ar fywydau a hanes y bobl, eu hoff a'u cas bethau, ac mae'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn adlewyrchu eu dewisiadau. Mae gan y bobl ddewis o ran prydau bwyd, gweithgareddau a ble y dymunant fod yn y cartref. Mae gweithgareddau ac adloniant yn cael eu cynllunio gan ystyried anghenion, galluoedd a diddordebau'r bobl ac mae eitemau ysgogol o gwmpas y cartref i afael ynddynt, i'w dal a'u hanwesu. Mae perthnasau yn canmol y gofal a ddarperir; mae'r staff yn canmol diwylliant y gwasanaeth a'r dewis gwirioneddol sydd gan y bobl.

Gofelir am lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl gan staff gofal profiadol a hyfforddedig sy'n ceisio cyngor proffesiynol pan fo angen. Gwelsom gofnodion o apwyntiadau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu gwneud ac mae meddygon teulu a nyrsys ardal yn ymweld â'r cartref pan fo angen. Mae'r staff wedi'u hyfforddi ym maes gofal dementia; maent yn rhyngweithio â'r bobl â charedigrwydd a gofal, gan barchu eu nodweddion unigol. Mae anghenion gofal a chymorth y bobl yn cael eu hadolygu'n aml er mwyn gallu nodi unrhyw newidiadau yn gyflym. Prynir offer i wella cysur a diogelwch y bobl.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag arferion gwael, cam-drin ac esgeulustod gan fod y staff wedi'u hyfforddi ym maes diogelu, ac mae polisïau ar waith i'w harwain. Mae'n hawdd mynd at y rheolwr ac mae ar gael i weld y staff pe bai angen i unrhyw un godi unrhyw bryderon. Mae cyfarfodydd rheolaidd gyda staff, yn unigol ac mewn grwpiau, yn rhoi cyfle i drafod pryderon a rhannu gwybodaeth newydd. Mae gan y gwasanaeth drefniadau ar waith i sicrhau bod unrhyw benderfyniadau sy'n cyfyngu ar ryddid rhywun yn cael eu gwneud er eu lles gorau yn unig a rhoddir ystyriaeth lawn i'r teulu a'r awdurdod diogelu lleol.

Mae gan y bobl lety sydd wedi'i gynllunio i wella llesiant ac sy'n cynnig amgylchedd heddychlon a thawel. Mae pedair rhan i'r cartref, ac ynddynt le i hyd at wyth o bobl sy'n rhannu rhai diddordebau ac sy'n gydnaws â'i gilydd. Mae'r cynllun yn galluogi'r bobl i ddod yn gyfarwydd â'i gilydd a'u hamgylchedd yn haws. Mae'n amgylchedd cartrefol a chyfforddus gydag addurniadau siriol ac ystafelloedd glân a llachar. Mae gan bob ardal ei hystafell fwyta, cegin fach a gardd ar wahân; mae heulfan yn darparu golygfa dros yr ardd a man tawel, llonydd gyda dodrefn cartrefol cyfforddus.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth o'u dewis ac o'r ansawdd sydd ei angen arnynt; mae eu cynlluniau personol yn cael eu diweddarau ac yn ystyried eu dymuniadau, eu hoffterau, eu hanghenion corfforol, meddyliol ac emosiynol. Mae hwn yn wasanaeth gofal dementia ac mae cynllun yr amgylchedd, y dodrefn a'r addurniadau, ac arbenigedd y staff i gyd wedi'u cynllunio a'u datblygu i ddiwallu'r anghenion hyn yn dda. Mae pob elfen o ofal yn cael ei hystyried mewn cynlluniau personol sy'n cael eu hadolygu bob tri mis, a gwelsom sut y diwellir anghenion ac y darperir ar gyfer diddordebau'r bobl. Mae cathod anwesu realistig a doliau babanod i ddod â chysur i bobl a gwella eu llesiant. Mae 'tai' ar wahân yn y cartref gofal sy'n creu teimlad teuluol mwy agos; mae'r bobl yn gydnaws â'i gilydd ac yn mwynhau cwmni ei gilydd. Gall y staff dreulio amser yn dod i adnabod y bobl a sgwrsio â nhw. Dywedodd y ceidwad tŷ wrthym y bydd pobl yn cerdded wrth ei hochr wrth iddi weithio, a'u bod yn sgwrsio. Mae blychau cof sydd wedi'u lleoli wrth ddrws pob ystafell wely yn rhoi darlun o'r hyn y mae'r person wedi'i fwynhau yn ei fywyd a'r hyn sy'n bwysig iddo. Mae siaradwyr Cymraeg yn cael eu cefnogi gan staff sy'n gallu cyfathrebu yn yr iaith maent yn ei ffafrio a darperir gwybodaeth, a'i gosod ar y waliau, yn ddwyieithog.

Mae'r gweithgareddau'n amrywiol ac yn cael eu trefnu'n ddyddiol. Mae cwisiau cerddoriaeth, crefftau, ymarfer corff, a bingo yn rhai o'r gweithgareddau sydd i'w gweld ar y bwrdd gweithgareddau sydd yn y neuadd; mae côr yn ymweld â'r cartref ddwywaith yr wythnos. Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd barchus gyfarwydd, gan gymryd amser i wrando a sgwrsio â'r bobl. Gwnaethom siarad â pherthynas i rywun sy'n byw yn y cartref. Dywedodd fod yna *'weithgareddau ardderchog yma'*, a chanmolodd y staff am gynnwys y bobl bob amser, hyd yn oed os nad ydynt yn cymryd rhan. Mae grŵp cyfryngau cymdeithasol preifat, a sefydlwyd gan y gwasanaeth, yn postio ffotograffau i roi gwybod i'r perthnasau am y gweithgareddau a'r adloniant y mae'r bobl yn cymryd rhan ynddynt. Mae amser bwyd yn brofiad hamddenol a gwelsom fod dewis yn cael ei roi ar gyfer pob pryd; mae brechwast wedi'i goginio bob amser ar gael. Mae byrddau wedi'u gosod gyda lliain bwrdd a phupur a halen ac ati; mae yna fyrbrydau a diodydd i'r bobl helpu eu hunain iddynt.

Gofelir am lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y bobl gan staff gofal sy'n ceisio cyngor proffesiynol pan fo angen. Gwelsom gofnodion o apwyntiadau gyda gweithwyr iechyd proffesiynol, ac mae meddygon teulu a nyrsys ardal yn ymweld â'r cartref pan fo angen. Caiff cymeriant maethol ei gofnodi, a chaiff pwysau y bobl ei fonitro'n agos. Mae systemau rheoli risg yn sicrhau bod peryglon posibl yn cael eu nodi a strategaethau yn cael eu rhoi ar waith i amddiffyn y bobl. Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu monitro a'u hadolygu a bod newidiadau'n cael eu gwneud os oes angen. Prynwyd offer i wella cysur a diogelwch y bobl, ac mae rhai o'r bobl wedi dod â'u heitemau eu hunain o ddodrefn megis hoff gadair freichiau lledorwedd.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu amgylchedd â digon o le i'r bobl symud o gwmpas yn rhwydd a gwneud dewisiadau ynghylch ble maent am dreulio eu diwrnod. Mae pedwar 'tŷ' o fewn yr adeilad yn lletya hyd at wyth o bobl, gan greu teimlad o agosatrydd a chaniatáu i bobl dreulio amser gyda'r bobl y maent yn fwyaf cydnaws â nhw. Mae gan bob ardal o wyth ystafell ei gardd breifat ei hun sy'n cynnig seddi a chysgod, lolfa fach dawel yn edrych dros yr ardd, ardal fwyta a chegin a lolfa deledu fwy. Mae steil y dodrefn yn ddomestig ac mae'r bobl yn ymlacio ac yn gyfforddus. Gwelsom y bobl yn cerdded o gwmpas, rhai yn eu hystafelloedd gwely eu hunain a rhai yn eistedd mewn mannau amrywiol o amgylch eu llety yn amlwg yn dewis lle roeddent am fod. Tra bod y cartref yn gyfforddus, yn lliwgar, yn olau, ac yn lân, nid yw rhai rhannau o'r gerddi wedi cael eu trin yn ddiweddar; mae borderi wedi gordyfu; mae rhai dodrefn wedi treulio, mae'r lliw wedi pylu, a gallai lleoliad potiau planhigion achosi peryglon baglu.

Mae gwedd bersonol ar yr ystafelloedd gwely ac ynddynt ddodrefn sy'n briodol i ddiwallu anghenion y bobl; mae gan rai welyau y gellir eu haddasu i wella cysur a llesiant y rhai sydd â mwy o broblemau symudedd. Mae gan bob ystafell wely ei hystafell wlyb en-suite fawr ei hun, felly mae'r bobl yn cael eu cefnogi â'u gofal personol mewn preifatrwydd ac urddas. Gwelsom fod cynlluniau ar gyfer gwella ystafelloedd gwely ymhellach a phwyslais ar yr angen i roi gwedd bersonol ar ofod pob person ymhellach. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion i reoli'r risg a berir gan heintiau. Mae tri glanhawr yn gweithio yn y bore i helpu i sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gadw'n hylan. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi dyfarnu sgôr o bump i'r gegin yn ddiweddar, sef y gorau y gall fod.

Mae gan y darparwr gwasanaeth fesurau ar waith i nodi a lliniaru risgiau, cynnal cyfleusterau ac offer pwysig, a chadw'r bobl yn ddiogel. Gwelsom fod asesiadau risg wedi'u cwblhau mewn perthynas â'r amgylchedd ac o ran pawb. Caiff achosion o gwmpo eu monitro a'u gwerthuso i nodi themâu a gwneud rheoli risg yn fwy effeithiol. Mae offer fel larymau synhwyrdd yn rhybuddio staff pan fydd pobl yn codi o'r gwely fel y gallant weithredu'n gyflym i atal cwympiadau. Mae cofnodion yn dangos bod gwiriadau cynnal a chadw a diogelwch yn cael eu cwblhau ar gyfer gosodiadau dŵr, offer tân, nwy, offer trydanol a thrydan. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant i wella diogelwch fel diogelwch tân, cymorth cyntaf, hylendid bwyd, iechyd a diogelwch a symud a thrin.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu ar waith i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithiol a bod goruchwyliaeth dda. Mae gan y rheolwr raglen o archwiliadau y mae'n ei chwblhau i sicrhau bod arferion yn adlewyrchu polisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref bob tri mis o leiaf ac yn ystod y cyfnod hwn bydd sawl agwedd ar y gwasanaeth yn cael eu harchwilio, gan gynnwys yr amgylchedd, a gofynnir am farn y staff a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld. Mae cynllun gwella gwasanaeth sy'n cael ei adolygu bob tri mis i wirio bod cynnydd yn cael ei wneud. Cwblheir adolygiad ansawdd gofal sy'n nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wella, ac mae hyn yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd yn ystod y chwe mis blaenorol.

Mae gan y gwasanaeth ystod o bolisiau a gweithdrefnau ar waith i helpu i gyfarwyddo ac arwain y staff a chadw'r preswylwyr yn ddiogel. Mae'r rheolwr neu'r dirprwy reolwr bob amser yn bresennol yn y cartref ac mae'r swyddfa wedi'i lleoli fel y gall y bobl fynd ato ar unrhyw adeg. Gwnaethom siarad â staff a gadarnhaodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn hapus iawn yn eu gwaith. Dywedodd un *'Dwi wrth fy modd yma, mae'n hollol wahanol i lefydd eraill (lle dwi wedi gweithio). Mae gan y bobl ddewisiadau, mae pawb yn gwneud fel y mynnan nhw a phryd y dymunan nhw'*. Dywedodd staff arall ei fod wedi gweithio mewn sawl lle ond *'dyma'r unig lle dwi'n nabod sydd fel hyn. Rwy'n falch o ddweud fy mod yn gweithio yma'*. Dywedodd y staff wrthym nad oes unrhyw frys a bod ganddynt amser i siarad a rhyngweithio'n ystyrlon â'r preswylwyr. Cadarnhaodd ein harsylwadau ar ddiwrnod ein hymweliad hyn.

Mae'r bobl yn cael eu cynorthwyo gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff sy'n ddigon cymwys ac sydd â'r wybodaeth i ddarparu'r gofal a chymorth sydd eu hangen. Gwelsom fod digon o staff ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref heb frys. Buom yn siarad â pherthynas a oedd yn canmol y staff am fod yn ofalgar ac yn sylwgar. Mae cofnodion staff yn dangos bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith a bod y bobl yn cael eu harchwilio'n briodol cyn cyflogaeth. Er bod y gwasanaeth yn defnyddio staff asiantaeth i gyflenwi yn ystod salwch ac absenoldeb arall y staff parhaol, maent yn defnyddio asiantaeth sy'n darparu proffiliau llawn o'r staff, fel eu bod yn gallu dewis y rhai sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Maent yn ymdrechu i ddewis yr un staff i sicrhau dilyniant. Mae recriwtio yn barhaus ac mae'r darparwr wedi gwneud penderfyniad i gyfyngu ar dderbyniadau hyd nes ei fod yn hyderus bod digon o adnoddau i ddiwallu eu hanghenion. Mae llesiant y trigolion yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth hwn.

Mae'r hyfforddiant yn cynnwys amrywiaeth o bynciau perthnasol, rhai ohonynt yn orfodol yn ystod y cyfnod sefydlu a rhai sy'n ddymunol ac yn cael eu darparu i'r staff ar ôl iddynt ddechrau gweithio. Mae gofal dementia yn ffocws allweddol ac mae cynnydd staff o ran hyn, yn ogystal â hyfforddiant arall, yn cael ei fonitro a'i gofnodi ar fatrics hyfforddi. Caiff y staff eu hannog a'u cefnogi i wella eu sgiliau a'u harbenigedd. Mae'r staff yn cael eu cefnogi gan gyfarfodydd un-i-un gyda'r rheolwr lle gellir codi pryderon, trafod arferion cyfredol a dyheadau. Gwelsom nodiadau o gyfarfodydd â staff lle gofynnwyd am farn am ffyrdd o

wella'r broses o gadw cofnodion a chynllunio gofal ymhellach. Mae hyn yn helpu'r staff i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod eu barn yn bwysig.



### Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
<b>Ni chyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiad yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Rheoliad	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

### Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Rheoliad	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

**Dyddiad cyhoeddi 22/09/2022**